**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref DB/00192/22
Y Cynghorydd Simon Glyn

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

19 Ebrill 2022

Annwyl Gynghorydd Simon Glyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth lle rydych yn disgrifio'r cynnig a fabwysiadwyd yn unfrydol gan Gyngor Sir Gwynedd ar gyfer sicrhau mwy o gydraddoldeb i fenywod ym mhob agwedd ar chwaraeon yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, gan gynnwys mewn chwaraeon; mae ein Rhaglen Lywodraethu am weld chwalu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau. Yn unol â hynny, rydym yn ystyried Deddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog sy'n seiliedig ar ffactorau eraill ac nid rhyw yn unig, fel cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd a ffurfiau eraill ar wahaniaethu. Byddwn yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus a chyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus yn taclo bylchau cyflog ac yn gosod targedau ar gyfer Cyllidebu ar sail Rhyw. Rydyn ni'n gweithio hefyd â Chyrff Llywodraethu Campau Cenedlaethol ar yr ymgyrch Dim Esgus i godi ymwybyddiaeth am stelcio, aflonyddu, trais a chamdrin menywod. Y nod yw helpu menywod i deimlo ei bod hi'n ddiogel iddynt gymryd rhan yn y campau a bod ganddyn nhw'r hawl i gymryd rhan ynddyn nhw ac i elwa ar y manteision a ddaw o fyw bywyd bywiog.

Chwaraeon Cymru yw prif gynghorydd a phrif bartner gwario Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon a gwelaf fod Brian Davies, y Prif Weithredwr, wedi cael copi o'ch llythyr. Mae Chwaraeon Cymru wedi cael gwybod bod targedau cydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi'u gosod ar gyfer pob Corff Llywodraethu Campau Cenedlaethol y buddsoddir ynddyn nhw, hynny i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli ar fyrddau'r campau ar bob lefel,. Mae Chwaraeon Cymru'n monitro hyn fel rhan o'u meini prawf yn unol â'u fframwaith galluedd.

Wrth sicrhau bod yna gyfleusterau addas ar gyfer chwaraeon menywod, sylweddolir bod cyfleusterau fel arfer yn cael eu rhannu gan bob rhywedd. Wedi dweud hynny, mae Chwaraeon Cymru'n rhan o Grŵp Cydweithredu Cymru Gyfan ar Chwaraeon, sy'n cynnwys hefyd Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru a Hoci Cymru. Trwy'r grŵp, edrychir ar leoliad strategol caeau artiffisial yng Nghymru, i geisio deall y sefyllfa a'r angen am gyfleusterau o'r fath mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru, ar sail angen a galw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylai ardal sy'n teimlo y gallai elwa o gael cae artiffisial holi'r awdurdod lleol, corff rheoli cenedlaethol a'r gymuned dan sylw. Mae Chwaraeon Cymru'n ariannu hefyd clybiau a mudiadau cymunedol trwy Gronfa Cymru Actif a thrwy Crowdfunder. Mae trechu anghydraddoldeb yn ganolog i'r broses benderfynu honno. Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir am dystiolaeth benodol ynghylch sut y bydd y buddsoddiad yn helpu cyfleoedd i fenywod a merched. Mae'n amlwg fod y galw yn tyfu; roedd yn dda gweld yn gynharach eleni, ar ddechrau'r tymor rygbi menywod, nifer bositif yn ymgeisio, gyda'r WRU yn cofrestru tros 5,000 o ferched, y nifer fwyaf erioed. Digwyddodd hyn yn dilyn cynnig y contractau proffesiynol cyntaf i chwaraewyr rygbi benywaidd yng Nghymru, cam y carwn weld ei estyn i bob camp yng Nghymru.

O ran cynrychioli'r rhywiau yn gyfartal ar sgrin, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y cyfryngau o ran canfyddiad y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth am chwaraeon a modelau rôl ym myd y campau. Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru lle mae trafod sut i sicrhau cydraddoldeb yn y sector darlledu yn fater o flaenoriaeth. Mae ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â BBC Cymru Wales ac S4C yn cynnwys ymrwymiadau ar y cyd i ddatblygu sector mwy amrywiol a chynhwysol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Trwy barhau i drafod, rydym yn annog ystod ehangach o leisiau gan gynnwys o fewn rhaglenni chwaraeon ac mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd ag Ofcom lle trafodir sut i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.

Trwy'n gwaith gyda'r Gweithgor ar Newyddiaduraeth Budd Cyhoeddus Cymru, rydym yn ceisio sicrhau sector newyddiaduraeth mwy cynhwysol. Mae hynny'n cefnogi mentrau i gynyddu cyfleoedd i unigolion o gefndiroedd o dan anfantais ac amrywiol sydd fwy tebygol o gynrychioli amrywiaeth o nodweddion, a'u hadlewyrchu'n bositif, o ran cynnwys a chyfraniad, gan gynnwys rhywedd.

Mae'n bwysig bod y pynciau hyn yn parhau'n ganolog i'n trafodaethau a'n gwaith. Yn bersonol, rwyf wedi ymwymo'n llwyr i wneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau cyfle cyfartal a bod pawb ledled Cymru yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip